**Rhif: WG46649**

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth

Cynigion ar Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer gofal a chymorth a gomisiynir, Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth, cryfhau trefniadau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, newidiadau i'r Cod Ymarfer ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a deddfwriaeth gysylltiedig, a chynigion ar Fframwaith Tâl a Dilyniant ar gyfer gofal cymdeithasol

Dyddiad cyhoeddi: 22 Mai 2023

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 14 Awst 2023

## Trosolwg

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio barn ar gynigion sy'n ymwneud â'r rhaglen ailgydbwyso gofal a chymorth. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer gofal a chymorth a gomisiynir (Cod Ymarfer), Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth, a chryfhau trefniadau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Hefyd, mae'r ymgynghoriad yn cynnwys cynigion yn ymwneud â newidiadau i'r Cod Ymarfer ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a deddfwriaeth gysylltiedig, a chynigion ar Fframwaith Tâl a Dilyniant ar gyfer gofal cymdeithasol.

## Sut i ymateb

Dylech gyflwyno'ch sylwadau erbyn 14 Awst 2023, gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

- llenwi ein ffurflen ar-lein
- lawrlwytho a llenwi ein ffurflen ymateb a'i hanfon drwy e-bost i'r cyfeiriad hwn: DyfodolGofalCymdeithasol@llyw.cymru
- lawrlwytho a llenwi ein ffurflen ymateb a'i phostio i'r cyfeiriad hwn:

Yr Is-adran Dyfodol ac Integreiddio
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gallwch wneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Yr Is-adran Dyfodol ac Integreiddio
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bostiwch: DyfodolGofalCymdeithasol@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: https://www.gov.wales/consultations

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o ymatebion i ymgynghoriadau, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion cyn cyhoeddi eich ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:
i wybod am y data personol a gedwir amdanoch, a'u gweld
i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
(o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
(o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
(o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), gweler y manylion cyswllt isod.

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
cyfeiriad e-bost:
SwyddogDiogeluData@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Rhif ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk

## Cynnwys


Rhagair y Gweinidog ..... 5

Cyflwyniad – Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth ..... 6

Y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth ..... 6

Adroddiad y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol a'r Grŵp Arbenigol 'Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru' ..... 7

Cynhyrchion yr ymgynghoriad ..... 8

Y Gymraeg ..... 8

Pennod 1 - Rhan 8 - Cod Ymarfer - Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth a Gomisiynir ..... 9

Pennod 2 - Cynigion ar gyfer Fframwaith Tâl a Dilyniant ..... 11

Pennod 3 - Cynigion ar gyfer Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth ..... 12

Pennod 4 - Rhan 2 - Cod Ymarfer- (Swyddogaethau Cyffredinol) ..... 14

Pennod 5 - Rhan 9 - Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth) ..... 16

Pennod 6 - Rhan 8 - Cod Ymarfer ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol) a newidiadau i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol ..... 24

Pennod 7 - Asesiad Effaith Integredig ..... 26

Pennod 8 – Cwestiynau cyffredinol ..... 27

## Rhagair y Gweinidog

Mae'r sector gofal cymdeithasol wedi parhau i ddelio â phwysau digynsail dros y blynyddoedd diwethaf, gan gefnogi llawer o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Cyflwynais neges debyg yn ôl ym mis Ionawr 2021 wrth lansio ein hymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Ailgydbwyso gofal a chymorth. Fodd bynnag, rwyf am ailadrodd fy niolch i'r sector am barhau i ymateb i'r heriau hyn wrth i ni lansio'r ymgynghoriad hwn ar y cynigion penodol a ddatblygwyd o dan y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth.

Fe wnaeth yr ymgynghoriad cychwynnol hwnnw ar y Papur Gwyn gynnig cyfres o newidiadau deddfwriaethol er mwyn gwireddu ein gweledigaeth i sicrhau lles pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Roedd y rhain yn cynnwys cynigion i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol, yn ogystal â gwella trefniadau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Ers yr ymgynghoriad cyntaf, mae'r cynigion cychwynnol wedi esblygu mewn ymateb i adborth gan bartneriaid gan greu Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth ehangach. Fel rhan o’r rhaglen hon, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â'r sector i gydgynhyrchu cyfres o Godau, cynigion, canllawiau a deddfwriaeth ddrafft. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y gwaith cychwynnol hwn.

Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cwmpasu ystod o feysydd ledled y sector gofal cymdeithasol ond maent i gyd yn ymwneud â'r nod cyffredinol o wella gofal cymdeithasol i bobl Cymru trwy system integredig ac ataliol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Rwy'n croesawu eich safbwyntiau ar y cynigion hyn ac rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio ag eraill er mwyn gwireddu ein huchelgais i sefydlu system gofal cymdeithasol integredig sy'n diwallu anghenion pobl Cymru.

**Julie Morgan AS**

**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**

## Cyflwyniad – Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar gynigion sy'n ymwneud â rhaglen ailgydbwyso gofal a chymorth Llywodraeth Cymru.

Mae Papur Gwyn 2021 Llywodraeth Cymru yn diffinio 'ailgydbwyso' yn fras fel set o ddisgrifiadau o'r newid rydym am ei weld.

**Ystyr ailgydbwyso yw…**

…Symud oddi wrth gymhlethdod. Tuag at symleiddio.

Symud oddi wrth brisiau. Tuag at ansawdd a gwerth cymdeithasol.

Symud oddi wrth gomisiynu ymatebol. Tuag at reoli'r farchnad.

Symud oddi wrth arferion seiliedig ar dasgau. Tuag at arferion seiliedig ar ganlyniadau.

Symud oddi wrth ffocws sefydliadol. Tuag at bartneriaeth fwy effeithiol...

**er mwyn cydgynhyrchu canlyniadau gwell gyda phobl.**

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar gynigion y Papur Gwyn, amlinellodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol y camau nesaf yn ei Datganiad Ysgrifenedig ym mis Hydref 2021. Mae'r cynigion hyn yn cael eu datblygu trwy'r rhaglen ailgydbwyso gofal a chymorth.

## Y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth

Mae'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen ailgydbwyso gofal a chymorth yn cynnwys tri phrif faes:

- Creu **Fframwaith Cenedlaethol** ar gyfer gofal a chymorth a gomisiynir a fyddai'n rhwymo comisiynwyr ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Bydd y fframwaith hwn yn gosod safonau ar gyfer arferion comisiynu, yn lleihau cymhlethdod ac yn ailgydbwyso prosesau comisiynu i ganolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau.
- Creu **Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth** a fydd yn goruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r Fframwaith Cenedlaethol.
- Cryfhau **trefniadau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol** er mwyn sicrhau bod gweithio ar y cyd yn diwallu anghenion poblogaethau lleol; cefnogi gwaith partneriaeth cryfach ac integreiddio gwasanaethau a gwella'r broses o baratoi llwybr ar gyfer datblygu'r partneriaethau allweddol hyn yn y dyfodol.

Mae cynhyrchion o dan y tri maes hyn yn rhan o'r ymgynghoriad hwn. Mae'r meysydd canlynol wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hefyd oherwydd eu cysylltiad â'r agenda ailgydbwyso ehangach:

Yn gyntaf, rydym wedi cynnwys **newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**. Mae'r rhain yn ymateb i newidiadau a gyflwynwyd gan y Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd (Mesur perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol: cod ymarfer | LLYW. CYMRU) ac yn ceisio cynnwys y defnydd o brofiadau pobl, yn ogystal â'r data a gasglwyd o dan y fframwaith. Y nod yw cwblhau ymarferiad hunanasesu er mwyn nodi anghenion i'w gwella. Mae hyn yn cyd-fynd â'r strwythur hunanasesu corfforaethol newydd sydd wedi'i amlinellu yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Yn ogystal â'r newidiadau i'r Cod Ymarfer, mae **newidiadau i Reoliadau Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol** wedi'u cynnwys. Roedd y rhain yn nodi beth sydd angen i'r adroddiadau blynyddol newydd ei gynnwys.

Hoffem gasglu safbwyntiau hefyd ar Ran 2, Adran 9 (https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/9/welsh) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"), sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod i'w helpu i gyflawni'r canlyniadau llesiant a nodir yn Adran 8 o Ddeddf 2014 (https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/8/welsh). Rydym wedi datblygu'r Fframwaith Perfformiad a Gwella, y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol (Fframwaith canlyniadau cenedlaethol gwasanaethau cymdeithasol | LLYW. CYMRU) a chanllawiau newydd ar gyfer Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol er mwyn bodloni'r gofynion a nodir yn Adran 9 o Ddeddf 2014.

Yn ail, rydym wedi cynnwys cynigion a ddatblygwyd gan y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yn ymwneud ag **egwyddorion Fframwaith Tâl a Dilyniant.** Bwriedir i'r fframwaith gynnwys pedair elfen - disgrifiad cyffredinol, proffiliau swyddi enghreifftiol, map gyrfa ar gyfer y sector a lefelau tâl disgwyliedig. Mae'r elfen gyntaf, y disgrifiad cyffredinol, wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad hwn.

## Adroddiad y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol a'r Grŵp Arbenigol 'Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru'

Mae'r rhaglen ailgydbwyso gofal a chymorth hefyd yn ymwneud â'r uchelgais i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen, a'r argymhellion a nodir yn adroddiad cysylltiedig y Grŵp Arbenigol, 'Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru'.

Mae'r Cytundeb Cydweithio a lofnodwyd gan Lafur Cymru a Phlaid Cymru ym mis Rhagfyr 2021 yn ymrwymo i 'sefydlu grŵp arbenigol i gefnogi ein huchelgais ar y cyd i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen'. Sefydlwyd y Grŵp Arbenigol hwn wedyn, gan lunio adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022 sy'n nodi'r elfennau allweddol sydd eu hangen i symud tuag at Wasanaeth Gofal Cenedlaethol. Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion yn

ymwneud â'r Fframwaith Cenedlaethol, y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth, a chryfhau trefniadau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Yn ogystal, yn yr adran ar gefnogi a gwerthfawrogi'r gweithlu, mae'r adroddiad yn cyfeirio at y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â chyflwyno strwythur tâl a chynnydd newydd.

## Cynhyrchion yr ymgynghoriad

Rhestrir holl gynhyrchion yr ymgynghoriad isod:

- Cod Ymarfer – Rhan 8 – Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth a Gomisiynir
- Cynigion Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth
- Cynigion Fframwaith Tâl a Dilyniant y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol
- Newidiadau i God Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)
- Canllawiau Statudol – Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth)
- Newidiadau i Ran 8 o'r Cod Ymarfer ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol)
- Newidiadau i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol
- Asesiad Effaith Integredig Drafft – Adrannau 1 ac 8.

Mae canllawiau newydd hefyd wedi'u datblygu i helpu awdurdodau lleol i lunio eu hadroddiadau gwasanaethau cymdeithasol blynyddol, y cyfeirir atynt yng Nghod Ymarfer Rhan 8 ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol. Mae'r canllawiau hyn bellach ar eu ffurf derfynol ond maent wedi'u cynnwys yn y pecyn ymgynghori hwn er gwybodaeth. Mae gan bob cynnyrch adran ar wahân yn y brif ddogfen ymgynghori hon. Mae'r adrannau hyn yn cynnwys crynodeb manylach o'r cynnyrch, ochr yn ochr â'r cwestiynau ymgynghori penodol.

## Y Gymraeg

Mae'r holl gynhyrchion yn yr ymgynghoriad hwn wedi'u llunio yng nghyd-destun Safonau'r Gymraeg a'r fframwaith strategol *Mwy na geiriau*.

Pan fydd pobl yn derbyn gofal neu'n ceisio'i drefnu, fel arfer dyna'r adeg pan fyddan nhw fwyaf bregus. Felly, mae bod yn gyfforddus yn eu hiaith eu hunain yn bwysig. Mae Cymru'n wlad ddwyieithog lle mae gan y Gymraeg statws swyddogol. Mae safonau'r Gymraeg, sy'n rhwymo mewn cyfraith, wedi'u gosod ar gyrff iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r safonau hyn yn ategu *Mwy na geiriau* sef ein cynllun i gryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Wrth wraidd *Mwy na geiriau* y mae egwyddor "y Cynnig Rhagweithiol" sy'n rhoi cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn lle bod rhaid i'r claf / defnyddiwr gwasanaeth ofyn amdanynt. Ein gweledigaeth ar gyfer *Mwy na geiriau* yw bod y Gymraeg yn perthyn i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar hyd a lled Cymru ac yn rhan annatod ohonynt fel y bydd unigolion yn derbyn gofal sy'n

addas ar gyfer eu hanghenion iaith, gan arwain at ganlyniadau gwell, heb orfod gofyn.

## Pennod 1 - Rhan 8 - Cod Ymarfer - Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth a Gomisiynir

### Cyflwyniad

Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2021 ar y Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth yn amlinellu cynigion i wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau prosesau gweithio mewn partneriaeth er mwyn gwireddu a chyflawni nodau cyffredinol Deddf 2014 i wella llesiant pobl.

Mae'r Papur Gwyn yn amlinellu nodau i ailgydbwyso gwasanaethau gofal a chymorth trwy:

- Symleiddio'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu trefnu
- Canolbwyntio mwy ar ansawdd yn hytrach na chostau
- Rheoli gwasanaethau'n well a helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu
- Cynllunio gwasanaethau ar sail anghenion pobl a'r hyn maen nhw eisiau ei gyflawni
- Gweithio agosach rhwng y GIG a'r Awdurdodau Lleol a gyda'u partneriaid.

Mae’r Papur Gwyn yn cynnig sefydlu Fframwaith Cenedlaethol strategol ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol er mwyn ailgydbwyso’r agweddau sylfaenol sy'n sail i'r farchnad ofal ar hyn o bryd. Byddai hyn yn symud y broses o gomisiynu gwasanaethau oddi wrth bris tuag at ansawdd a gwerth cymdeithasol, ac yn ail-gyfeirio arferion comisiynu adweithiol tuag at reoli'r farchnad a chanolbwyntio ar ganlyniadau. Ar ôl yr ymgynghoriad, ym mis Hydref 2021, ymrwymodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflwyno Fframwaith Cenedlaethol strategol ar gyfer gofal a chymorth.

Er mwyn bwrw ymlaen â'r Fframwaith Cenedlaethol, canolbwyntiodd Llywodraeth Cymru ar weithio ar agweddau technegol ar y Fframwaith gyda grŵp bach o sefydliadau comisiynu a darparwyr. Ym mis Rhagfyr 2022, cyflwynodd y grŵp technegol argymhellion i Weinidogion ar gynnwys arfaethedig y Fframwaith Cenedlaethol.

### Crynodeb o'r cynigion

Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â chyflwyno Cod Ymarfer statudol newydd o dan Ran 8 o Ddeddf 2014. Bydd y Cod hwn yn sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth yng Nghymru gan awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG.

Bydd y Cod yn cael ei gyhoeddi ar y cyd o dan Ran 8 - Adran 145 o Ddeddf 2014 ac fel canllawiau o dan adran 2 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. Bydd byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yn cael cyfarwyddyd i arfer eu swyddogaethau perthnasol yn unol â gofynion y Cod.

Bwriad Llywodraeth Cymru yw i'r Cod gael ei adolygu a'i ddiweddaru oddeutu bob 2 flynedd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag arferion comisiynu presennol. Bydd canllawiau anstatudol yn cael eu darparu (os oes angen) rhwng yr adolygiad 2 flynedd ffurfiol o'r Cod.

Mae'r rhan fwyaf o ofal a chymorth yn cael eu darparu trwy wasanaethau a gomisiynir. Felly, mae effeithiolrwydd comisiynu yn cael effaith fawr ar benderfynu a yw'r gofal a'r cymorth y mae pobl yn eu derbyn yn bodloni disgwyliadau 'beth sy'n bwysig i mi?'.

Mae'r Cod yn amlinellu egwyddorion a safonau cenedlaethol y mae'n rhaid i gomisiynwyr eu dilyn wrth gomisiynu gwasanaethau ar gyfer gofal a chymorth ar gyfer eu poblogaethau lleol. Hefyd, mae'r Cod yn ceisio ailgydbwyso'r sylfaen ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth trwy ganolbwyntio ar ganlyniadau a gwerth cymdeithasol a thrwy symud o bris tuag at ansawdd a chanolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'r Cod yn darparu ar gyfer mwy o gysondeb a thryloywder yn y cylch comisiynu.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1.1**: Ydych chi'n credu y bydd yr egwyddorion a'r safonau a amlinellir yn y Cod yn helpu i sicrhau cysondeb ledled Cymru ar gyfer prosesau ac arferion comisiynu, ac yn lleihau dyblygu a chymhlethdod?

**Cwestiwn 1.2** Ydych chi'n credu y bydd y safonau a amlinellir yn y Cod yn helpu i sicrhau cysondeb ledled Cymru ar gyfer prosesau ac arferion comisiynu, ac yn lleihau dyblygu a chymhlethdod?

**Cwestiwn 1.3**: Ydych chi'n credu y bydd y gofynion mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn helpu i sicrhau cysondeb wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg a'r cynnig rhagweithiol?

**Cwestiwn 1.4:** Ydych chi'n credu y bydd y gofynion mewn perthynas â Chydraddoldeb yn helpu i hyrwyddo a gwella hawliau unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth, a hawliau gofalwyr?

**Cwestiwn 1.5:** Ydych chi'n credu y bydd y gofynion a'r canllawiau statudol yn y Cod yn helpu i leihau cymhlethdod ac yn sicrhau cysondeb cenedlaethol wrth gomisiynu gofal a chymorth?

**Cwestiwn 1.6:** Ydych chi'n credu y bydd y gofynion a'r canllawiau statudol yn y Cod yn helpu i wella canlyniadau ar gyfer unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth, a gofalwyr?

**Cwestiwn 1.7:** Ydych chi'n credu y bydd y gofynion a'r canllawiau statudol yn y Cod yn helpu i ail-ganolbwyntio ar yr agweddau sylfaenol ar y farchnad ofal, gan symud oddi wrth bris tuag at fesur gwerth sy'n seiliedig ar ansawdd y gwasanaeth a'r gost gyffredinol?

**Cwestiwn 1.8:** Ydych chi’n credu y bydd y gofynion a'r canllawiau statudol yn y Cod yn helpu i hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol di-dor, gan leihau rhwystrau i gynllunio a darparu ar y cyd.

Ym mhob un o feysydd y cwestiynau hyn, byddem yn croesawu ymatebion ynglŷn â sut y gellid cryfhau pob cyfres o ddarpariaethau neu eu gwneud yn fwy effeithiol.

## Pennod 2 - Cynigion ar gyfer Fframwaith Tâl a Dilyniant

### Cyflwyniad

Mae'r fframwaith tâl a dilyniant drafft wedi'i ddatblygu gan y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2020 yn dilyn argymhelliad gan Gomisiwn Gwaith Teg Cymru. Grŵp partneriaeth gymdeithasol yw'r Fforwm sy'n cynnwys cyflogwyr, awdurdodau lleol, undebau llafur, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Ei nod yw gwella trefniadau gweithio ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu sicrhau bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo'n deg, eu clywed a'u cynrychioli, a'u bod yn gallu camu ymlaen yn eu gyrfa mewn amgylchedd iach a chynhwysol lle mae hawliau'n cael eu parchu.

Mae'r Fforwm yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru, ond mae ei benderfyniadau a'i waith yn gwbl annibynnol arni. Felly, mae'r Fframwaith hwn yn elfen ar wahân i'r ymgynghoriad hwn, a bydd ymatebion yn cael eu hystyried gan y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yn hytrach na Llywodraeth Cymru.

### Crynodeb o'r cynigion

Dyma ddrafft cychwynnol fframwaith tâl a dilyniant ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n amlinellu cyfres o fandiau ar gyfer swyddi gwahanol ac mae'n cynnwys y sgiliau, y gwerthoedd, y wybodaeth, y ddealltwriaeth, a'r tasgau nodweddiadol ar gyfer pob swydd. Hefyd, yn y dyfodol, bydd yn cynnwys map gyrfa o gyfleoedd ar gyfer cynnydd yn y sector, a phecyn cymorth o broffiliau rôl enghreifftiol. Ar hyn o bryd, nid yw'r copi drafft hwn yn cynnwys graddfeydd tâl disgwyliedig, a fydd yn dilyn mewn fersiwn ddiweddarach. Cytunir ar y graddfeydd hyn trwy'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, gan ddefnyddio egwyddorion partneriaeth gymdeithasol.

Bwriad y fframwaith hwn yw gwireddu dyheadau ymrwymiad gwaith teg Cymru a strategaeth y gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Nodau eraill y fframwaith yw:

- gwella prosesau recriwtio a chadw staff ym maes gofal cymdeithasol
- helpu i ddatblygu'r gweithlu trwy barhau i wella sgiliau a gwybodaeth
- darparu llwybr cynnydd clir ar gyfer pobl sy'n ystyried ymuno â'r sector neu sydd eisoes yn gweithio yn y sector
- darparu fframwaith symlach ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr cyflogedig
- disgrifio gwerthoedd cadarnhaol gweithwyr gofal cymdeithasol
- darparu proses deg a thryloyw ar gyfer penderfyniadau cyfunol ac unigol yn ymwneud â chyflogau (yn ystod y cam hwn mewn sefydliadau unigol).

Bydd y fframwaith yn gyfyngedig, yn y lle cyntaf, i weithwyr sy'n darparu gofal uniongyrchol. Ni fydd gweithwyr cymdeithasol yn cael eu cynnwys ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd, mae'r Fforwm yn rhag-weld y bydd y Fframwaith yn ganllaw **gwirfoddol** ar gyfer gweithwyr cyflogedig, cyflogwyr, a chomisiynwyr gofal.

### Cwestiynau'r Ymgynghoriad – Pennod 2

**Cwestiwn 2.1** Mae egwyddor y fframwaith tâl a dilyniant yn seiliedig ar gynnig fframwaith cenedlaethol sy'n gallu cefnogi egwyddorion gwaith teg. Ydych chi'n credu bod y Fframwaith yn gallu cefnogi'r dyhead hwn a'r manteision a amlinellir uchod?

**Cwestiwn 2.2** A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau o ran sut y gellid gwella'r fframwaith i helpu i gyflawni ei ddyheadau?

**Cwestiwn 2.3** Pa rwystrau posibl a allai atal y fframwaith rhag cyflawni ei ddyheadau?

## Pennod 3 - Cynigion ar gyfer Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth

### Cyflwyniad

Fel rhan o'r Datganiad Ysgrifenedig ym mis Hydref 2021 yn manylu ar y camau nesaf sy'n deillio o'r Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog y byddai Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth yn cael ei sefydlu oddi mewn i Lywodraeth Cymru. Ers y cyhoeddiad hwn, mae Grŵp Technegol wedi cyfarfod ac wedi gwneud argymhellion i Weinidogion ynglŷn â chynnwys Fframwaith Cenedlaethol strategol ar gyfer Gofal a Chymorth. Mae gwybodaeth ychwanegol wedi'i chynnwys yn y Datganiad Ysgrifenedig ym mis Rhagfyr 2022.

Mae'r Cytundeb Cydweithio yn cynnwys yr ymrwymiad i "sefydlu grŵp arbenigol i gefnogi ein huchelgais ar y cyd i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen". Sefydlwyd Grŵp Arbenigol yn gynnar yn 2022 i lunio cyfres o argymhellion ar gyfer camau ymarferol y gellid eu cymryd, a chyhoeddwyd adroddiad argymhellion y Grŵp Arbenigol ym mis Tachwedd 2022 sydd bellach ar gael i'w ddarllen. Mae'r argymhellion yn pwysleisio rôl swyddfa genedlaethol yn arwain polisi cenedlaethol tuag at ddyfodol gofal cymdeithasol yng Nghymru. Felly, mae'n hanfodol bod ystyriaethau ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol yn ymestyn y tu hwnt i'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth er mwyn helpu i ddatblygu a chyflwyno Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol.

Mae Gweinidogion wedi cytuno ar adroddiad o argymhellion ar gyfer Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol, ac mae gwaith i ddatblygu cynllun gweithredu Cam 1 ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol ar y gweill. O ganlyniad, mae'r broses o sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth wedi dechrau yn ffurfiol. Mae'r ddogfen Cynigion Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth yn yr ymgynghoriad hwn yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer y swyddfa.

### Crynodeb o'r cynigion

Mae’r cynigion yn ymwneud yn bennaf â swyddogaeth y swyddfa. Cynigir y bydd gan y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth dair swyddogaeth graidd: goruchwylio a chydymffurfio â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth; datblygu a gweithredu'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol; a chefnogi gwaith y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol. Bydd pob un o'r swyddogaethau craidd hyn yn cynnwys cyfrifoldebau a / neu elfennau ychwanegol ac mae manylion y cynigion hyn i'w gweld yn nogfen ymgynghori'r Swyddfa Genedlaethol.

Trwy’r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn atebol yn weithredol i Gyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol oddi mewn i Lywodraeth Cymru. Hefyd, bydd yn atebol yn wleidyddol i Weinidogion Llywodraeth Cymru. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn rhan o strwythurau presennol Llywodraeth Cymru ac yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio. Bydd pwyslais y Swyddfa Genedlaethol yn wynebu tuag allan, gan gynorthwyo'r sector i fynd i'r afael â'r holl faterion heriol y mae'n eu hwynebu a datblygu ymatebion effeithiol. Efallai y bydd adegau hefyd pan fydd y Swyddfa Genedlaethol yn ymgymryd ag elfennau llai amlwg o waith polisi sy'n gyson â'i gylch gwaith. Byddai cymryd camau cyntaf tuag at ddatblygu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn enghraifft o hyn.

Rydym yn archwilio manteision gwreiddio rhai swyddogaethau cenedlaethol presennol yn y Swyddfa Genedlaethol, ac mae sgyrsiau'n parhau yn ymwneud â rôl y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn y dyfodol a'i berthynas â'r Swyddfa Genedlaethol.

Ni ragwelir y bydd angen unrhyw newid i ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer y model llywodraethu arfaethedig gan nad yw corff ar wahân yn cael ei sefydlu. Ni fydd y Swyddfa Genedlaethol yn ymgymryd â gweithgarwch sydd y tu allan i gwmpas swyddogaethau presennol Gweinidogion Cymru. Os oes angen unrhyw ddeddfwriaeth ar gyfer swyddogaethau arfaethedig sy'n cael eu cyflwyno wrth i'r Swyddfa Genedlaethol aeddfedu, bydd hyn yn cael ei archwilio.

### Cwestiynau'r Ymgynghoriad - Pennod 3

**Cwestiwn 3.1:** Ydych chi'n cytuno â'r dyluniad ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol? Os nad ydych chi, pa ddyluniad fyddech chi'n ei awgrymu?

**Cwestiwn 3.2:** Ydych chi'n cytuno â'r weledigaeth ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol? Os nad ydych chi, pa weledigaeth fyddech chi'n ei hawgrymu?

**Cwestiwn 3.3:** Ydych chi'n cytuno â'r swyddogaethau arfaethedig ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol, a'r berthynas sydd wedi'i disgrifio â sefydliadau statudol allweddol, yn enwedig awdurdodau lleol, Gofal Cymdeithasol Cymru, a GIG Cymru? Os nad ydych chi, pa swyddogaethau ydych chi'n anghytuno â nhw a pham?

**Cwestiwn 3.4:** Ar sail swyddogaethau arfaethedig y Swyddfa Genedlaethol, ydych chi'n rhag-weld y bydd gwaith sy'n cael ei wneud eisoes gan gyrff neu sefydliadau cenedlaethol eraill yn cael ei ddyblygu, ac a oes cyfleoedd eraill yma i symleiddio?

Cwestiwn 3.4a: Os ydych chi, sut ydych chi'n meddwl y bydd modd datrys y mater? Er enghraifft, a fyddech chi'n cefnogi'r syniad o drosglwyddo swyddogaethau penodol i'r Swyddfa Genedlaethol?

**Cwestiwn 3.5:** O ran ei safle oddi mewn i Lywodraeth Cymru a darparu ar gyfer 'golwg barcud' o'r system gofal cymdeithasol, beth yw'r prif gyfleoedd, gan weithio gydag awdurdodau lleol, Gofal Cymdeithasol Cymru, a phartneriaid allweddol eraill, i sbarduno newid a gwella gwasanaethau? Rhowch resymau am eich ymateb.

**Cwestiwn 3.6:** Yn eich barn chi, beth yw'r cyfleoedd penodol i'r Swyddfa Genedlaethol arwain newid diwylliant mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, gan ganolbwyntio'n benodol ar y cynllun pum mlynedd, 'Mwy na Geiriau' (2022-27).

**Cwestiwn 3.7:** Pa gamau ymarferol all y Swyddfa Genedlaethol eu cymryd i sicrhau cyfle cyfartal trwy ofal cymdeithasol? Gan roi ystyriaeth i amrywiaeth cymunedau Cymru ac amgylchiadau pobl eu hunain, sut mae'r Swyddfa Genedlaethol yn gallu ychwanegu gwerth ar lefel genedlaethol i sicrhau bod canlyniadau lles pobl yn cael eu bodloni'n gyson?

## Pennod 4 - Rhan 2 - Cod Ymarfer- (Swyddogaethau Cyffredinol)

### Cyflwyniad

Mae Rhan 2 o Ddeddf 2014 yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud â swyddogaethau cyffredinol awdurdodau lleol. Mae Rhan 2 o'r Cod Ymarfer yn nodi sut y dylai personau sy'n arfer swyddogaethau o dan Ddeddf 2014 sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau i hyrwyddo llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Yn benodol, mae'n nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol:

- ymgymryd ag asesiad o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth
- darparu ystod o wasanaethau ataliol
- cyflawni eu dyletswydd i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector
- cyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â darparu gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau cymorth.

Hefyd, mae'r Cod yn cynnwys canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol a byrddau iechyd ar sefydlu trefniadau partneriaeth at ddiben cwblhau asesiadau o anghenion y boblogaeth.

**Crynodeb o'r Cynigion**

Roedd y broses o adolygu Rhan 2 o'r Cod wedi'i llywio gan waith dau Grŵp Gorchwyl a Gorffen, y naill yn canolbwyntio ar ailgydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol, a'r llall ar ymgysylltu, llais a chydgynhyrchu.

Mae'r prif newidiadau rydym yn eu cynnig yn ymwneud â Phennod 4 o'r Cod, sy'n ymdrin â dyletswydd awdurdodau lleol, o dan adran 16 o Ddeddf 2014, i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector. Mae'r 'ddyletswydd i hyrwyddo' yn cynnwys dwy elfen: hyrwyddo darpariaeth gwasanaethau trwy fentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol a'r trydydd sector; a hyrwyddo cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau wrth ddylunio a darparu gwasanaethau. Mae ein cynigion yn cynnwys gwahanu'r ddwy elfen, fel bod y Bennod 4 ddiwygiedig yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau trwy ddefnyddio'r modelau a'r dulliau hyn, a bod Pennod 5 newydd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â dinasyddion, llais a chydgynhyrchu.

Mae Pennod 4 wedi'i llunio yn fwy eglur yng nghyd-destun polisi Llywodraeth Cymru o ailgydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol trwy gynyddu modelau darparu gwasanaethau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg yn y trydydd sector, sy'n cynnwys mentrau cymdeithasol ac ati. Hefyd, rydym wedi ysgrifennu'r testun ar gyfer gwerth cymdeithasol er mwyn darparu diffiniad cliriach a gosod modelau a dulliau adran 16 mewn cyd-destun ehangach i ddarparu gwerth cymdeithasol. Yn y cyd-destun hwn, rydym wedi ail-ysgrifennu'r adran ar fforymau rhanbarthol (a elwid gynt yn 'fforymau gwerth cymdeithasol') er mwyn eu gosod yn gadarn yng nghyd-destun y ddyletswydd adran 16.

Nod y Bennod 5 newydd yw rhoi mwy o bwyslais ar yr angen am gydgynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr wrth ddylunio a darparu gwasanaethau gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol. Un o'r prif negeseuon yw bod dull gweithredu sy'n seiliedig ar werthoedd cydgynhyrchu yn hanfodol er mwyn cyflawni'r ddyletswydd i hyrwyddo. Mae'n amlygu'r angen am ddull gweithredu amrywiol a chynhwysol, yn enwedig mewn perthynas â lleisiau nas clywir yn aml, ac mae'n pwysleisio bod yn rhaid i gydgynhyrchu fod yn nodwedd o'r cylch comisiynu cyfan, gan gynnwys asesu angen, dylunio a darparu, a monitro a gwerthuso. Mae yna ofynion newydd i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr di-dâl mewn darpariaeth fewnol (awdurdod lleol), ac i weithio gyda'r holl ddarparwyr, gan gynnwys y sector preifat, er mwyn sicrhau bod cydgynhyrchu wedi'i ymgorffori ym mhob gwasanaeth a gomisiynir.

Mae rhai newidiadau wedi'u gwneud i Bennod 2 ar asesiadau o anghenion y boblogaeth, gan gynnwys negeseuon ychwanegol o'r canllawiau atodol a gyhoeddwyd yn 2021 ar gyfer y cylch diweddaraf o asesiadau - er enghraifft, y darllen ar draws i'r asesiadau llesiant a gwblhawyd gan y Byrddau Gwasanaethau

Cyhoeddus, ac i waith clystyrau a chlystyrau cyfan ym maes gofal sylfaenol; a rhagor o bwyslais ar dueddiadau'r dyfodol, niwrowahaniaeth, a phlant a phobl ifanc.

Mae mân newidiadau wedi'u gwneud i Bennod 3 ar wasanaethau ataliol hefyd, fel ei bod yn canolbwyntio'n gliriach ar rôl gwasanaethau ac adnoddau yn y gymuned i gefnogi gwaith atal ac ymyrraeth gynnar, ac mae'n ailadrodd pwysigrwydd cydweithredu wrth ddatblygu a chynnal gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar integredig ar draws grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad- Pennod 4**

**Cwestiwn 4.1:** A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar fanylion y Cod drafft, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau am yr hyn sydd ar goll, beth y gellid ei hepgor neu ble y gellid gwella'r geiriad?

**Cwestiwn 4.2:** Yn benodol, a yw'r diwygiadau i Bennod 4 yn helpu i egluro'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector? A oes unrhyw beth ar goll neu'n aneglur?

**Cwestiwn 4.3:** A yw'r Bennod 5 newydd yn rhoi'r negeseuon cywir ynglŷn â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr? A oes unrhyw beth ar goll neu'n aneglur?

## Pennod 5 - Rhan 9 - Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth)

### Cyflwyniad

Mae Rhan 9 o Ddeddf 2014 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd er mwyn arfer eu swyddogaethau. Mae rheoliadau a wnaed o dan Ran 9 wedi creu saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Diben Rhan 9 yw sicrhau bod partneriaid allweddol yn cydweithio'n effeithiol i wella canlyniadau iechyd a llesiant pobl, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd darparu gwasanaethau integredig.

Mae trefniadau partneriaethau rhanbarthol wedi esblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r Byrddau wedi dod yn fforwm pwysig ar gyfer hyrwyddo gweithio ac integreiddio rhanbarthol ledled y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Un o nodau allweddol ein Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth yw cryfhau'r trefniadau hyn a gwella swyddogaeth y byrddau.

### Crynodeb o'r Cynigion

Mae ein cynigion yn cynnwys diwygio Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 (Rheoliadau 2015) er mwyn galluogi'r Byrddau i weithredu'n fwy effeithiol, a diwygio Rhan 9 o'r Canllawiau Statudol ar drefniadau partneriaeth er mwyn

adlewyrchu sefyllfa esblygol gwaith cynllunio a darparu gwasanaethau integredig. Rydym yn ymgynghori ar y bwriad i gyflwyno diwygiadau i Reoliadau 2015, fel y nodir isod, ac ar ddiwygiad drafft o'r Canllawiau Statudol.

Hefyd, rydym yn cynnig gwneud diwygiadau i Reoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017 mewn perthynas â chynlluniau cyflawni blynyddol.

<u>Diwygiadau arfaethedig i Reoliadau 2015</u>

Cafodd Rheoliadau 2015 eu gwneud o dan adrannau 166 i 168 o Ddeddf 2014. Maent yn amlinellu'r gofynion i bob bwrdd iechyd a'r awdurdodau lleol yn ei ardal gymryd rhan mewn trefniadau partneriaeth er mwyn cyflawni swyddogaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol penodedig. Hefyd, mae Rheoliadau 2015 yn darparu ar gyfer gweithredu a rheoli’r trefniadau partneriaeth, sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun.

Yn wahanol i Fyrddau Iechyd Lleol, nid yw Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn endidau cyfreithiol corfforaethol, sy'n gosod terfynau ar eu swyddogaethau a sut maen nhw'n eu cyflawni. Fel rhan o'r Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth (Ionawr 2021), fe wnaethom ymgynghori ar y posibilrwydd o gyflwyno deddfwriaeth i sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel cyrff corfforaethol, ond nid oedd llawer o gefnogaeth i'r cynnig hwn, yn enwedig gan sefydliadau statudol. Fodd bynnag, wrth i'r partneriaethau esblygu ac aeddfedu, mae wedi dod yn amlwg bod y fframwaith cyfreithiol presennol yn rhy gyfyngedig i alluogi'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i wireddu eu potensial yn llawn fel sbardunau newid gwirioneddol, ac y bydd angen diwygio Rheoliadau 2015 er mwyn cryfhau a grymuso'r Byrddau i gael goruchwyliaeth effeithiol o'r trefniadau partneriaeth. Mae'r diwygiadau yn cwmpasu amcanion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, eu haelodau, a pharatoi eu hadroddiadau blynyddol, yn ogystal â darpariaethau newydd yn ymwneud â hunanasesu a chynlluniau blynyddol. Nid ydynt yn newid statws cyfreithiol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ond yn gweithio oddi mewn i'r fframwaith cyfreithiol presennol a nodir yn Rhan 9 ac yn Rheoliadau 2015.

<u>Amcanion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol</u>

Mae Rheoliad 10 yn disgrifio amcanion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel hyn:

- sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn gweithio gyda’i gilydd yn effeithiol i ymateb i’r asesiad o’r boblogaeth a gweithredu'r cynllun ardal ar y cyd
- sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn darparu adnoddau digonol ar gyfer y trefniadau partneriaeth
- hyrwyddo comisiynu ar y cyd a sefydlu cronfeydd cyfun lle y bo'n briodol.

**Rydym yn cynnig ychwanegu'r canlynol at y rhestr o amcanion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol:**

- **sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ymateb i'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad a baratowyd yn unol ag adran 144B o'r Ddeddf**

- **sicrhau bod cyrff partneriaeth yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i weithredu'r cynllun cyflawni blynyddol sy'n gysylltiedig â'u cynlluniau ardal ar y cyd**
- **sicrhau, wrth ymateb i'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad a gweithredu'r cynllun ardal ar y cyd, bod cyrff partneriaeth yn rhoi sylw dyladwy i ddyletswydd awdurdod lleol o dan adran 16 o'r Ddeddf i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector**
- **sicrhau bod cyrff partneriaeth yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i gyflawni'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau a threfniadau iechyd a gofal cymdeithasol integredig**
- **goruchwylio awdurdodau lleol wrth arfer eu dyletswydd o dan adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 mewn perthynas â'r trefniadau partneriaeth**
- **gweithio gyda Chorff Llais y Dinesydd i hyrwyddo cyfranogiad pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr yng ngwaith y bartneriaeth ranbarthol.**

Mae'r gofyniad i awdurdodau lleol lunio adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad wedi'i nodi yn adran 144B o Ddeddf 2014.[1] Maen nhw'n cael eu llunio ar sail ranbarthol mewn partneriaeth â'r byrddau iechyd, ac maen nhw'n ategu'r asesiad o anghenion y boblogaeth i ddarparu tystiolaeth sydd angen ei hystyried wrth lunio'r cynllun ardal ar y cyd. Trwy ychwanegu gofyniad at amcanion y Byrddau i sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ymateb i'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad, bydd modd cryfhau rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth sicrhau bod cyrff y bartneriaeth yn atebol am waith comisiynu a chynllunio strategol.

Mae mewnosod amcan sy'n ymwneud â chynlluniau cyflawni blynyddol yn gysylltiedig â'r diwygiad arfaethedig i Reoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017, fel y nodir isod. Felly, byddai'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn goruchwylio gweithredu effeithiol ar y cyd o'r cynllun ardal ar y cyd a'r cynllun cyflawni blynyddol cysylltiedig.

Mae Adran 16 o Ddeddf 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i chynnwys yn y rhestr o swyddogaethau awdurdodau lleol yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn (swyddogaethau sydd i'w cyflawni gan drefniadau partneriaeth). Trwy ychwanegu craffu ar arfer y ddyletswydd hon yng nghyd-destun y trefniadau partneriaeth at amcanion y Byrddau, bydd modd cryfhau dull partneriaeth ranbarthol o ailgydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol trwy hyrwyddo'r modelau a'r dulliau hyn. Hefyd, bydd yn helpu i gefnogi'r fforymau rhanbarthol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu sefydlu o dan Ran 2 o'r Cod Ymarfer.

---

[1] Mewnosodwyd adran 144B gan adran 56(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar 23 Chwefror 2021 (Gorchymyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 7) 2021).

Bwriad ychwanegu amcan newydd i hyrwyddo integreiddio yw sicrhau bod y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael mwy o effaith wrth sbarduno system gofal cymunedol integredig i Gymru. Yn benodol, bydd yn ein galluogi i gynnwys gofyniad yn Rhan 9 o'r Canllawiau Statudol i'r Byrddau helpu i ddatblygu a gwreiddio'r chwe model integredig cenedlaethol o ofal sy'n sylfaen i weithgarwch a ariennir gan brosiectau o dan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae'r Canllawiau Statudol diwygiedig yn cynnwys diffiniad newydd o integreiddio a sut mae modd cyflawni integreiddio trwy sicrhau bod gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant yn gweithio gyda'i gilydd ar dair lefel: macro (lefel strategol sy'n canolbwyntio ar systemau), meso (integreiddio lefel sefydliadol / gwasanaeth), a micro (darparu gofal a chymorth integredig i'r unigolyn); a'r cysylltiad rhwng y tair lefel. Hefyd, mae'r canllawiau yn darparu 'glasbrint' amlinellol ar gyfer system iechyd a gofal integredig ac mae'n disgrifio ein bwriad i osod safonau ar gyfer integreiddio yn erbyn pa reoleiddwyr a fydd yn gallu archwilio gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi canolbwyntio mwy ar ofal a chymorth integredig i blant a phobl ifanc ers cyhoeddi adroddiad Comisiynydd Plant Cymru yn 2020, 'Dim Drws Anghywir: dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant'. Mae hyn wedi cynnwys pwyslais cynyddol ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. O dan adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i wneud y cyfryw drefniadau ag y maent yn ystyried sy'n addas i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad gan blant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol a allai effeithio arnynt. **Rydym yn cynnig ychwanegu'r ddyletswydd adran 12 at y rhestr o swyddogaethau awdurdodau lleol sydd i'w cyflawni gan y trefniadau partneriaeth, fel y'i nodir yn Atodlen 1 i Reoliadau 2015.** Bydd hyn yn ein galluogi i ychwanegu goruchwyliaeth o arfer y ddyletswydd hon mewn perthynas â'r trefniadau hynny.

O fis Ebrill 2023, bydd Corff Llais y Dinesydd yn cynrychioli lleisiau a barn pobl Cymru yn ymwneud â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd yn annibynnol ar y llywodraeth, y GIG ac awdurdodau lleol, ond bydd yn gweithio gyda nhw, ac eraill, i gefnogi'r gwaith parhaus o wella gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bydd Corff Llais y Dinesydd mewn sefyllfa dda i gynorthwyo cyrff y partneriaethau a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ymgysylltu'n fwy effeithiol â dinasyddion, gan gynnwys y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr, yng ngwaith y partneriaethau rhanbarthol. Un nod rydym yn ei gynnig i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw gweithio gyda Chorff Llais y Dinesydd i hyrwyddo hyn. Hefyd, rydym yn cynnig y dylai Corff Llais y Dinesydd fod â statws sylwedydd annibynnol ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (gweler Rheoliad 11 isod).

<u>Aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol</u>

Mae Rheoliad 11 yn cynnwys rhestr o'r rhai sydd angen eu cynnwys yn aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mae'n caniatáu i'r bwrdd gyfethol pobl eraill fel aelodau lle bo hynny'n briodol, ac mae'n caniatáu i gyrff partneriaeth dalu costau a lwfans i aelodau'r bwrdd.

Mae aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn adlewyrchu natur amlsector y bartneriaeth ranbarthol. Yn ogystal â chynrychiolwyr o gyrff y bartneriaeth a chyrff cyhoeddus eraill, mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys aelodau sy'n

ddinasyddion cyffredin (defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr) a'r rhai sy'n cynrychioli sefydliadau'r trydydd sector, darparwyr gofal a'r sector tai. Yn y Canllawiau Statudol diwygiedig, rydym wedi ceisio egluro rôl holl aelodau'r bwrdd, gan eu trefnu ar sail tri safbwynt penodol: partneriaid â phrofiad bywyd, partneriaid cyflenwi gwasanaethau, a phartneriaid comisiynu strategol. Er mwyn adlewyrchu dylanwad cynyddol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar hyrwyddo dull gweithio integredig ledled y sector iechyd a gofal cymdeithasol, rydym yn credu y dylid ehangu'r rhestr o aelodau hefyd.

**Rydym yn cynnig ehangu'r rhestr o aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gynnwys:**

- **cynrychiolydd o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**
- **o leiaf un person i gynrychioli buddiannau darparwyr gofal sylfaenol yn yr ardal a gwmpesir gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol**
- **o leiaf un person i gynrychioli'r Cyngor Gwirfoddol Sirol yn yr ardal a gwmpesir gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.**

Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru eisoes wedi'i chyfethol yn aelod o'r rhan fwyaf o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a hoffem sicrhau ei bod yn aelod ffurfiol. Dylai'r cynnig i ychwanegu darparwyr gofal sylfaenol at y rhestr helpu i gynyddu cysondeb ac ymgysylltiad rhwng gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, clystyrau a grwpiau cynllunio clystyrau cyfan. Yn olaf, bydd ychwanegu'r Cyngor Gwirfoddol Sirol yn helpu i gryfhau presenoldeb y trydydd sector ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, sydd eisoes yn gorfod cynnwys o leiaf dau berson i gynrychioli buddiannau sefydliadau'r trydydd sector yn eu rhanbarth.

Rydym yn credu bod angen gwneud darpariaeth i gynnwys Corff Llais y Dinesydd yn un o aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Fodd bynnag, o ystyried statws annibynnol y corff newydd, ac yn dilyn trafodaethau â chadeirydd a phrif weithredwr dros dro Corff Llais y Dinesydd, rydym yn credu y byddai'n fwy priodol i Gorff Llais y Dinesydd fod â statws sylwedydd annibynnol yn y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn hytrach na bod yn aelod llawn. Felly, ni fydd Corff Llais y Dinesydd yn rhan o broses ffurfiol y bwrdd o wneud penderfyniadau, ac ni fydd yn cael pleidleisio, ond bydd yn gallu gwneud sylw ar drafodaethau'r bwrdd a chymryd rhan ynddynt. Hefyd, mae'n bosibl y bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dymuno gwahodd cyrff eraill i fod yn sylwedyddion annibynnol, ar hyn o bryd neu yn y dyfodol.

**Rydym yn cynnig:**

- **rhoi'r pŵer i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol wahodd sefydliadau i fod â statws sylwedydd annibynnol ar y bwrdd, lle mae'n credu bod hynny'n briodol**
- **creu gofyniad i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol wahodd Corff Llais y Dinesydd i fod yn sylwedydd annibynnol.**

Hefyd, rydym o'r farn ei bod yn briodol caniatáu i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol dalu costau a lwfans i'r arsylwyr annibynnol hyn, fel maen nhw'n cael gwneud ar gyfer eu haelodau.

<u>Cymorth i aelodau</u>

Nid yw Rheoliad 11 na'r Canllawiau Statudol presennol yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer sut mae aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu

recriwtio neu eu cefnogi, ac ychydig iawn o gyfeiriadau sydd yn y Canllawiau Statudol at rôl aelodau nad ydynt yn perthyn i gyrff y bartneriaeth. Yn dilyn sylwadau gan grwpiau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr di-dâl, aeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ymgysylltu a Llais ati i ystyried trefniadau swyddogaeth, recriwtio a chymorth ar gyfer aelodau defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr di-dâl, darparwyr trydydd sector a darparwyr gofal Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd allbynnau'r gwaith hwn yn cynnwys disgrifiadau rôl newydd ar gyfer yr aelodau hyn, Siarter yn amlinellu cyfres o ymrwymiadau yn ymwneud â chyfranogiad ystyrlon, a llythyr arweiniad ar gyfer Cadeiryddion newydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. O ganlyniad, rydym wedi ehangu a chryfhau'r rhan hon o'r Canllawiau Statudol yn sylweddol, ac mae'r Siarter wedi'i chynnwys fel Atodiad. Hefyd, rydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol cynnwys rhywfaint o'r gwaith hwn yn y Rheoliadau.

**Rydym yn cynnig ychwanegu'r darpariaethau canlynol yn ymwneud â recriwtio a chefnogi aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol:**

- **rhaid i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol lunio disgrifiadau rôl ar gyfer pob aelod o'r bwrdd – h.y. ar gyfer pob un o'r 'categorïau' aelodaeth yn Rheoliad 11(1) – yn unol ag unrhyw ganllawiau cenedlaethol sydd wedi'u cyhoeddi gan Weinidogion Cymru**
- **rhaid i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol roi trefniadau tryloyw a hygyrch ar waith ar gyfer recriwtio aelodau'r bwrdd sy'n cynrychioli pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr**
- **rhaid i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gymryd camau ymarferol i gefnogi aelodau'r bwrdd, a rhoi sylw penodol i anghenion cymorth aelodau sy'n cynrychioli pobl ag anghenion gofal a chymorth, gofalwyr, a buddiannau sefydliadau neu ddarparwyr trydydd sector.**

<u>Adroddiadau</u>

Mae Rheoliad 12 yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol baratoi adroddiadau blynyddol yn ymwneud ag i ba raddau y maent wedi cyflawni eu hamcanion (fel y'i nodir yn Rheoliad 10). Rydym yn credu bod angen cryfhau'r Rheoliad hwn, ac adran berthnasol y Canllawiau Statudol, o safbwynt cynnwys a chyhoeddi'r adroddiadau hyn.

**Rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynnwys y canlynol yn eu hadroddiadau blynyddol:**

- diben, rôl, aelodaeth, strwythur gweithredu, a blaenoriaethau allweddol y Bwrdd
- gwybodaeth am sut mae’r trefniadau partneriaeth wedi ymateb i’r asesiad o’r boblogaeth a gweithredu eu cynllun ardal ar y cyd (gan gynnwys gwybodaeth am sut mae adnoddau wedi’u defnyddio’n effeithiol)
- gwybodaeth am sut mae’r Bwrdd wedi cefnogi integreiddio gwell, darpariaeth gwasanaethau a chanlyniadau gwell ar gyfer pobl
- gwybodaeth am sut mae'r Bwrdd wedi ymgysylltu â dinasyddion (yn enwedig pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr, gan gynnwys plant a phobl ifanc) yn ei waith, sut mae wedi hyrwyddo cydgynhyrchu, a'r

gwahaniaeth mae'r gweithgareddau hyn wedi'i wneud i ganlyniadau llesiant dinasyddion
- gwybodaeth am weithgarwch comisiynu ar y cyd a'r defnydd o gronfeydd cyfun
- gwybodaeth am sut mae'r cyrff partneriaeth yn hyrwyddo'r sector gwerth cymdeithasol a sut mae'n helpu i sicrhau bod y sector gwerth cymdeithasol ynghlwm wrth waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac yn gallu ei siapio
- adran yn amlinellu blaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer y flwyddyn i ddod a sut mae'n bwriadu mynd ati i'w cyflawni yn unol â'r cynllun cyflawni blynyddol
- crynodeb o ganlyniadau hunanasesiad y bartneriaeth a'r adolygiad blynyddol cysylltiedig.

**Hefyd, rydym yn cynnig bod yn rhaid cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar wefannau cyrff y bartneriaeth.**

<u>Rheoliadau newydd</u>

Yn ogystal â'r diwygiadau uchod i'r darpariaethau presennol, rydym yn cynnig ychwanegu darpariaethau newydd i Reoliadau 2015 yn ymwneud â hunanasesu.

<u>Hunanasesu</u>

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cydgynhyrchu a threialu adnodd hunanasesu ar y cyd â'r partneriaethau rhanbarthol, er mwyn helpu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i graffu ar eu heffeithiolrwydd eu hunain. Rydym yn bwriadu gwneud yr hunanasesiadau hyn yn ofyniad statudol y bydd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu cwblhau bob dwy flynedd, a'u diweddaru'n flynyddol yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

**Rydym yn cynnig gwneud Rheoliad newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol:**
- **gwblhau hunanasesiad bob dwy flynedd yn unol â chanllawiau cenedlaethol**
- **cynnal adolygiad blynyddol o'r hunanasesiad a'i ddiweddaru yn ôl yr angen**
- **cyhoeddi crynodeb o ganlyniadau'r hunanasesiad a'r adolygiad blynyddol yn eu hadroddiadau blynyddol.**

<u>Unigolion cyfrifol</u>

Mae'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen wedi awgrymu y dylai fod gan bob un o'r cyrff partneriaeth berson a enwir sy'n aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac y dylai'r person hwnnw fod yr unigolyn arweiniol neu gyfrifol o ran cydweithredu a phartneriaeth yn eu sefydliad. Yn achos awdurdodau lleol, yr unigolyn hwn, wrth reswm, fyddai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae pob Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Yn achos byrddau iechyd, yr unigolyn hwn ddylai fod yr aelod gweithredol sydd wedi'i benodi i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Yn ogystal â bod yn gyfrifol am hwyluso cyfraniad eu corff at gyflawni amcanion y Bwrdd, byddai disgwyl hefyd i'r unigolyn cyfrifol adrodd yn ôl i'w gorff neu ei gabinet ei hun ar waith y Bwrdd. Mewn llawer o

achosion, mae'r Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r aelodau o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n cynrychioli byrddau iechyd yn gwneud hyn eisoes. Er mwyn gwneud y trefniadau hyn yn rhan annatod o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, **rydym yn cynnig creu rheoliad newydd i'w gwneud yn ofynnol i'r cyrff partneriaeth enwi unigolyn cyfrifol ar gyfer arwain a sicrhau cydweithredu yn y trefniadau partneriaeth ar ran eu corff partneriaeth**. Byddai'r Canllawiau Statudol yn nodi bod yn rhaid i'r person hwn fod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn achos awdurdod lleol, a'r aelod gweithredol sy'n aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn achos bwrdd iechyd. Dylid hefyd gynnwys hyn yn y disgrifiad o rôl yr aelod hwnnw.

<u>Cronfeydd cyfun</u>

Gellir defnyddio cronfeydd cyfun i gefnogi comisiynu ar y cyd effeithiol, ond nid ydynt yn nod ynddynt eu hunain. Y nod yw gwella'r ffordd y mae cyrff iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau a darparu'r gwasanaethau cywir i bobl i'w helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Gyda hynny mewn golwg, rydym am gryfhau trefniadau comisiynu ar y cyd ar draws cyrff iechyd a gofal cymdeithasol.

Gan ddysgu o brofiad blaenorol yn y maes hwn, ac mewn ymgais i annog mwy o gomisiynu ar y cyd a chyllidebau cyfun rhwng y cyrff partneriaeth, rydym wedi ceisio darparu mwy o hyblygrwydd yn y Canllawiau Statudol diwygiedig.

**Mae'r gofyniad presennol ar gyfer cyllidebau cyfun mewn perthynas â chomisiynu ar y cyd leoliadau cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn wedi'i gadw, ond bydd gan y cyrff partneriaeth fwy o hyblygrwydd o ran penderfynu ar ba lefel y dylid cyfuno cyllidebau (rhanbarthol, is-ranbarthol, lleol neu glwstwr). Bydd hyn yn golygu symud i ffwrdd o'r cyllidebau cyfun gorfodol ar lefel <u>ranbarthol</u> a oedd yn ofynnol yn flaenorol ond a oedd yn anodd eu gweithredu.**
Mae'r canllawiau newydd yn nodi y dylai'r cyrff partneriaeth ystyried comisiynu ar y cyd a chronfeydd cyfun mewn perthynas ag ystod ehangach o wasanaethau na chartrefi gofal i bobl hŷn yn unig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gwasanaethau ataliol
- gofal cartref
- ailalluogi
- gofal iechyd parhaus
- lleoliadau therapiwtig a diogel i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth
- pobl ag anabledd dysgu mewn llety byw â chymorth
- cymorth ar gyfer gofalwyr di-dâl.

<u>Diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017</u>

Mae adran 14 o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd sydd wedi cwblhau asesiad o anghenion y boblogaeth ar y cyd baratoi a chyhoeddi cynllun ardal ar y cyd mewn ymateb. Roedd Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017 wedi ei gwneud yn ofynnol i'r cynlluniau cyntaf gael eu cyhoeddi erbyn 1 Ebrill 2018, ac i'r cynlluniau dilynol gael eu cyhoeddi

flwyddyn ar ôl cwblhau pob asesiad o anghenion y boblogaeth - h.y. bob pum mlynedd. Mae disgwyl y bydd y cynlluniau ardal nesaf yn cael eu cyhoeddi eleni. Mae Rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff perthnasol gymryd camau priodol i fonitro a gwerthuso'r gwasanaethau a chamau eraill a nodir yn y cynllun ardal ar y cyd; ac mae Rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i adolygu'r cynllun, a'i ddiwygio os oes angen, os cyhoeddir adendwm i'r asesiad o anghenion y boblogaeth yn unol â'r rheoliadau ar asesiadau o'r boblogaeth.

**Rydym yn cynnig gwneud rheoliad newydd o dan Reoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff perthnasol baratoi cynllun cyflawni blynyddol i helpu i roi'r cynllun ardal ar y cyd ar waith dros y deuddeg mis nesaf.**

**Hefyd, rydym yn cynnig diwygio Rheoliad 3 i'w gwneud yn ofynnol i'r cyrff perthnasol adolygu cynnydd tuag at roi'r cynllun ardal ar y cyd ar waith yn flynyddol yn unol â'r cynllun cyflawni blynyddol.**

**Rydym yn cynnig y dylid paratoi'r cynlluniau cyflawni blynyddol cyntaf erbyn 1 Ebrill 2024.**

### Cwestiynau'r Ymgynghoriad- Pennod 5

**Cwestiwn 5.1:** Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ddiwygio Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth 2015, a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017? A oes unrhyw ddiwygiadau eraill y dylem eu gwneud yn eich barn chi?

**Cwestiwn 5.2:** A hoffech wneud unrhyw sylwadau ar y diwygiadau arfaethedig i Ran 9 o'r Canllawiau Statudol, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau am yr hyn sydd ar goll, beth y gellid ei hepgor neu ble y gellid gwella'r geiriad?

**Cwestiwn 5.3**: Ydych chi'n cytuno y bydd y diwygiadau arfaethedig i'r rheoliadau a'r canllawiau statudol yn helpu i gryfhau trefniadau partneriaeth rhanbarthol a rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol? A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill o ran yr hyn y gellid ei gynnwys?

## Pennod 6 - Rhan 8 - Cod Ymarfer ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol) a newidiadau i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol

### Cyflwyniad

Mae Deddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru hyrwyddo llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth.

Fel rhan o ddatblygiad Deddf 2014, sefydlodd Llywodraeth Cymru gyfres o ddangosyddion perfformiad, mesurau a fframweithiau canlyniadau ar gyfer

gwasanaethau cymdeithasol yn 2016 er mwyn mesur effaith Deddf 2014 ar ganlyniadau llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth.

Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, lansiwyd Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd, mwy cynhwysfawr ym mis Ebrill 2020 fel rhan o ddull gweithredu graddol. Mae'r fframwaith perfformiad a gwella yn amlinellu uchelgais Llywodraeth Cymru i ddefnyddio dulliau amrywiol i gasglu, dadansoddi a deall data a thystiolaeth yn ymwneud â darparu gofal a chymorth, a chymorth i ofalwyr ledled Cymru.

Mae'r Fframwaith Perfformiad a Gwella yn canolbwyntio ar dri maes allweddol, sef mesur gweithgarwch a pherfformiad, deall profiadau a chanlyniadau, a defnyddio tystiolaeth i sbarduno gwelliant.

Yn ogystal, mae'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yn ofyniad yn Rhan 2 Adran 8 o Ddeddf 2014 ac mae'n disgrifio'r llesiant ar gyfer pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth, gan ddarparu dull cyson o fesur llesiant.

Mae'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yn datblygu'r canlyniadau llesiant cenedlaethol sy'n cael eu disgrifio yn y datganiad llesiant trwy amlinellu pum deg dau o ddangosyddion canlyniadau cenedlaethol sydd wedi'u diffinio o dan wyth agwedd ar lesiant sy'n ymwneud â phob agwedd ar fywyd unigolyn.

**Crynodeb o'r cynigion**

Mae Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol yn gysylltiedig â'r mesurau perfformiad, gwella a chanlyniadau hyn. Diben yr Adroddiadau Blynyddol yw amlinellu camau gwella'r Awdurdod Lleol wrth ddarparu gwasanaethau i bobl yn eu hardaloedd, pobl sy'n derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth, a phobl a gofalwyr sy'n derbyn gofal a chymorth.

Bydd y cod newydd, y rheoliadau cysylltiedig, a'r ddogfen ganllaw yn helpu'r Awdurdod Lleol i baratoi'r adroddiadau hyn. Mae'r canllawiau yn nodi sut y gellir defnyddio'r data a'r dystiolaeth sy'n cael eu casglu fel rhan o'r Fframwaith Perfformiad a Gwella i ddatblygu'r Adroddiadau Blynyddol.

Mae'r dogfennau hyn yn egluro gofynion yr adroddiad, yn adlewyrchu bwriad Llywodraethau Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol ac Arolygiaeth Gofal Cymru i integreiddio'r adroddiad yn y Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd, yn amlinellu'r cynulleidfaoedd targed ac yn cynnig awgrymiadau ar gyfer arferion da.

Mae'r canlynol yn cael ei gynnig ar gyfer yr adroddiad blynyddol a'r broses adrodd:

(i) Byddant yn rhan o'r Fframwaith Gwella Perfformiad.

(ii) Byddant yn rhan annatod o gamau cynllunio, craffu, a gwella perfformiad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

(iii) Byddant yn seiliedig ar hunanasesiad trylwyr o berfformiad, sy'n cynnwys:

a) beth sydd wedi ei gyflawni a'i wneud yn dda;

b) pa welliannau sydd eu hangen, wedi'u llywio gan adborth gan y cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr, partneriaid, a rhanddeiliaid eraill;

c) camau sydd wedi'u cynllunio a'u cymryd i ddiwallu anghenion gwella a nodwyd; a

d) chynnydd a wnaed yn erbyn blaenoriaethau gwella a nodwyd yn y flwyddyn flaenorol.

Mae adran 9 o Ddeddf 2014 yn nodi ei bod yn ofynnol i gyhoeddi Cod Ymarfer i helpu awdurdodau lleol a phersonau sy'n darparu gofal a chymorth i gyflawni'r canlyniadau llesiant a nodir yn adran 8 o Ddeddf 2014. Rydym yn credu bod cyfuniad o'r Fframwaith Perfformiad a Gwella, y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ac Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol yn rhoi arweiniad a strwythur digonol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu cyflawni'r canlyniadau. Rydym felly'n ystyried gwneud diwygiad i newid y ddyletswydd yn adran 9 i fod yn bŵer.

### Cwestiynau'r Ymgynghoriad- Pennod 6

**Cwestiwn 6.1:** A oes unrhyw rwystrau i weithredu'r canllawiau newydd ar gyfer cynhyrchu Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol?

**Cwestiwn 6.2:** Pa gymorth/hyfforddiant sydd ei angen i weithredu'r canllawiau newydd?

**Cwestiwn 6.3:** Pa allbynnau neu ddadansoddiad o Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol sydd angen eu cwblhau yn eich barn chi?

**Cwestiwn 6.4:** Ydych chi'n credu bod y cyfuniad o'r Fframwaith Perfformiad a Gwella, y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ac Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol yn rhoi arweiniad a strwythur digonol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu cyflawni'r canlyniadau?

## Pennod 7 - Asesiad Effaith Integredig

### Crynodeb o'r cynigion

Mae Asesiad Effaith Integredig yn cael ei baratoi i gwmpasu'r holl gynhyrchion unigol yn yr ymgynghoriad hwn. Ei ddiben yw galluogi Llywodraeth Cymru i ystyried, mewn ffordd strwythuredig, effaith y polisïau a'r camau arfaethedig ar bobl Cymru.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn parhau i gael ei ddatblygu gan fod y cynhyrchion y mae'n eu cwmpasu ar ffurf ddrafft o hyd ac yn destun ymgynghoriad a rhagor o ddiwygiadau o bosibl. Fodd bynnag, er budd tryloywder ac er mwyn cael adborth allanol, mae Adrannau 1 ac 8 o'r Asesiad Effaith Integredig wedi'u cynnwys ar ffurf ddrafft ar gyfer eich ystyriaeth.

Mae adran 1 o'r Asesiad Effaith Integredig yn disgrifio pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham, gan gynnwys heriau a chyfleoedd posibl. Er y bydd adrannau penodol o'r Asesiad Effaith Integredig yn ystyried yr effeithiau posibl ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, nod yr adran hon yw crynhoi elfennau allweddol y cynigion.

Adran 8 o'r Asesiad Effaith Integredig yw'r adran olaf, ac mae'n ceisio crynhoi prif effeithiau'r cynigion. Gan fod yr Asesiad Effaith Integredig cyffredinol yn parhau i gael ei ddatblygu, ni ddylid ystyried y casgliadau hyn yn rhai terfynol, ond maent yn darparu crynodeb dangosol o'r effeithiau ar sail y gwaith a gwblhawyd hyd yma.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad - Pennod 7**

**Cwestiwn 7.1:** Hoffem wybod eich barn ar Adrannau 1 ac 8 o'r Asesiad Effaith Integredig. A oes unrhyw feysydd penodol lle rydych chi'n teimlo bod angen rhagor o fanylion, neu unrhyw faterion penodol rydych chi am eu hamlygu a allai gael effaith ar grŵp penodol?

## Pennod 8 – Cwestiynau cyffredinol

Mae'r bennod hon yn cynnwys cyfres o gwestiynau cyffredinol y gellir eu hateb mewn perthynas ag unrhyw un o'r cynhyrchion ymgynghori neu bob un ohonynt. Mae'r ddau gwestiwn cyntaf yn ymwneud â'r iaith Gymraeg; mae'r cwestiwn olaf yn gwestiwn agored sy'n rhoi cyfle i wneud unrhyw sylwadau ychwanegol ar faterion nad ydynt wedi'u cynnwys yn benodol yn y cwestiynau blaenorol.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad - Pennod 8**

**Cwestiwn 8.1:** Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai unrhyw un o'r cynhyrchion a gyflwynir yn yr ymgynghoriad ailgydbwyso hwn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, a hefyd yr effaith y byddent yn ei chael o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Beth fyddai’r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellir cynyddu’r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru’r effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 8.2:** Esboniwch hefyd sut y credwch y gallai'r cynhyrchion a gyflwynir yn yr ymgynghoriad ailgydbwyso hwn gael eu llunio neu eu newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu ragor o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac fel nad ydynt yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 8.3:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i’r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i’w nodi: